

## EVANS, HOWELL THOMAS (1877 - 1950), hanesydd ac athro

**Enw:** Howell Thomas Evans

**Dyddiad geni:** 1877

**Dyddiad marw:** 1950

**Priod:** Gwenllian Evans (née Howells)

**Rhiant:** Mary Evans

**Rhiant:** John Evans

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** hanesydd ac athro

**Maes gweithgaredd:** Addysg; Hanes a Diwylliant

**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 6 Tachwedd 1877, yng Nghwmbwrla, ger Abertawe, yn ail fab i John Evans, gweithiwr dur, a Mary ei wraig. Bu dan addysg yn yr ysgol ramadeg, Abertawe; coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth; a choleg Sant Ieuan, Caergrawnt. Graddiodd mewn hanes ym mhrifysgolion Cymru, Llundain, a Chaer-grawnt. Bu'n dysgu yn ysgol Wellington, ac yn ysgol ramadeg y Frenhines Elizabeth yng Nghaerfyrddin; yna yn ysgol uwchradd y Bechgyn, Caerdydd, o 1905 hyd 1917. Yn y flwyddyn honno penodwyd ef yn brifathro'r ysgol sir yn Aberaeron, a daliodd y swydd nes iddo ymddeol yn 1944. Ysgrifennodd nifer o lyfrau hanes, yn eu plith *History of England and Wales* (1909, 1910); *Making of Modern Wales* (1912); *Wales and the Wars of the Roses* (1915); *Once upon a time* (1929); *At Such and Such a time* (1931); *Long long ago* (1932); *The Age of Expansion* (1933). Bu'n llywydd Cymdeithas Prifathrawon Ysgolion Uwchradd Cymru yn 1940, ac am beth amser yn un o gynrychiolwyr ei gyd-brifathrawon ar Lys y Brifysgol.

Yr oedd Howell Evans yn r eang ei ddiddordebau, ac ni fodlonodd ar fyw a gweithio yn rhigolau cyffredin yr athro, er cymaint ei gynnyrch llenyddol fel hanesydd. Yn ei anerchiad o'r gadair i Gymdeithas y Prifathrawon (Mai 1940) ymhelaethodd ar ei syniadau am wir natur addysg, gan bwysleisio pwysigrwydd yr unigolyn a'r angen am beidio â cheisio troi allan bob disgybl yn ôl yr un patrwm. Gwawdiai'r unffurfiaethau a oedd ar gerdded; amddiffynnai ysgolion bonedd Lloegr am iddynt goleddu egwyddor annibyniaeth mewn addysg; barnai fod galluoedd y gweinyddwr ym myd addysg yn cynyddu a bod angen eu cwtdogi. Yr oedd hefyd yn arddwr ymroddedig ac yn awdurdod ar dyfu blodau Mihangel. Priododd Gwenllian Howells, o Lansawel, Sir Forgannwg, yn 1904, a ganwyd iddynt bedwar o feibion. Bu farw yn Aberaeron, 30 Ebrill 1950, a'i gladdu yng Nghaerdydd.

### Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

### Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei deulu

*Welsh Secondary Schools Review*, Cyf. 26, Rhif 2, 1940

Lyn Evans, *Portrait of a Pioneer a biography of Howell Thomas Evans* (Llandybie 1982)

## Delweddau

LIGC: [Howell T. Evans with colleagues](#)

LIGC: [Howell Thomas Evans with his elder sons](#)

LIGC: [Howell T. Evans fishing in the Aeron river](#)

LIGC: [Howell T. Evans fishing in the Aeron river](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821144](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

